# RHAGOLWG

## Gellir dod o hyd i ddogfennau ategol perthnasol dan "Busnes y Cynulliad" "Dogfennau a Osodwyd" sydd, fel arfer, yn cael eu gosod ar y wefan 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod llawn perthnasol.

## [Hysbyswyd gan y Trefnydd mewn datganiad i'r cynulliad 12 Ebrill 2005]

**Dydd Mawrth 19 Ebrill a dydd Mercher 20 Ebrill 2005**

**Dydd Mawrth 26 Ebrill a dydd Mercher 27 Ebrill 2005**

**Dydd Mawrth 3 Mai a dydd Mercher 4 Mai 2005**

## Dydd Mawrth 19 Ebrill 2005

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Statement by the Minister for Finance,Local Government and Public Services : Public Services Ombudsman (Wales) Act (30 munud)**
- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**
- **Rheoliadau Hadau Planhigion Porthiant (Cymru) 2005**

  Mae'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno, i mewn i'r trefniadau ardystio hadau planhigion porthiant (a ddefnyddir i gynhyrchu porfa neu borthiant i anifeiliaid, sef gwartheg, defaid a cheffylau yn bennaf), nifer o newidiadau statudol sy'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth y CE. Maent yn manylu ar y gweithdrefnau ar gyfer ardystio hadau planhigion porthiant.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cychwyn Rhif 8) (Cymru) 2005 (15 munud)**

  Effaith fwriedig y Gorchymyn hwn yw dechrau’r rhannau hynny o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 sy’n rhoi pwer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

wneud Rheoliadau mewn cysylltiad â gwasanaethau cymorth mabwysiadu. Bydd hyn yn galluogi'r Cynulliad i ystyried y Rheoliadau sy'n ofynnol i ddod â'r Ddeddf i rym yn llwyr ac i gymryd lle'r Rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Mabwysiadu 1976.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Ciniawau Ysgol (Gofyniad Rhagnodedig) (Cymru) 2005 (15 munud)**

  Bydd Gorchymyn Ciniawau Ysgol (Gofyniad Rhagnodedig) (Cymru) 2005 yn cymryd lle Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol) (Gofyniad Rhagnodedig) (Cymru) 2003 gan nad yw geiriad Gorchymyn 2003 yn eglur. Bwriad Gorchymyn 2003 oedd bod yn rhaid i ddisgyblion meithrin fod yn bresennol am ddiwrnod llawn (h.y. yn bresennol yn ystod sesiwn y bore a'r prynhawn yn ogystal ag yn ystod amser cinio) ar unrhyw ddiwrnod pan fyddant yn mynychu ysgol feithrin er mwyn bod yn gymwys i gael cinio ysgol. Nid nodi bod yn rhaid i ddisgybl meithrin fynychu bob dydd, pum niwrnod yr wythnos er mwyn bod yn gymwys oedd y bwriad. Mae Gorchymyn 2005 yn sicrhau bod y meini prawf ar gyfer cymhwyster disgyblion meithrin i gael cinio ysgol os ydynt yn talu amdano neu os yw'r cinio hwnnw am ddim, yn gyson ledled Cymru. Bydd y Gorchymyn newydd yn pennu "rhaid i ddisgybl cofrestredig sy'n derbyn addysg feithrin fod yn bresennol am ddwy sesiwn lawn ar unrhyw ddiwrnod pan fydd yn yr ysgol i beri bod dyletswydd i ddarparu cinio ar y diwrnod hwnnw."

- **Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar Anweithgarwch Economaidd (60 munud)**
- **Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig: Diogelwch ar Ffyrdd Lleol (15 munud)**

  Caiff y Grant Diogelwch ar Ffyrdd Lleol ei dalu i awdurdodau lleol er mwyn eu cynorthwyo i ddarparu ystod o brosiectau i wella diogelwch ar y ffyrdd yn eu hardaloedd lleol. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau addysg, hyfforddiant, cyhoeddusrwydd a pheirianneg.

## Dydd Mercher 20 Ebrill 2005

- **Motion(s) to elect members to regional Committees (1 munud)**
- **Cwestiynau ar Gyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**
- **Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. (30 munud)**

- **Datganiad gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Rhesymoli Cynllunio Llywodraeth Leol (30 munud)**

  Bydd y datganiad yn amlinellu cynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd ati'n radical i resymoli'r gofynion yr ydym yn eu gosod ar awdurdodau lleol i lunio cynlluniau a strategaethau. Wrth wneud hynny, byddwn yn cynyddu'r ffocws ar sicrhau canlyniadau a sicrhau gwelliannau gwirioneddol i wasanaethau lleol, yn hytrach na chydymffurfio â phrosesau yn unig. Byddwn hefyd yn tynnu beichiau sylweddol oddi ar ysgwyddau awdurdodau lleol ac eraill.

- **Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 0) (Cymru) 2005 : Cronfa Ddatblygu ar gyfer Rheoli Perfformiad (15 munud)**
- **Dadl ar ymateb y Pwyllgor Safonau ynghylch Seiri Rhyddion (60 munud)**
- **Dadl fer (30 munud)**

## <u>Dydd Mawrth 26 Ebrill 2005</u>

- **Motion(s) to establish an ad hoc Audit Committee meeting and to elect its members (1 munud)**
- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- ***Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 funud)***
- **Rheoliadau Bwyd â Ffytosterolau neu Ffytostanolau Ychwanegol (Labelu) (Cymru) 2005**

  Bydd y Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweinyddu a gorfodi (gan gynnwys troseddau a chosbau) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 608/2004. Mae Rheoliad y CE yn gosod gofynion penodol ar gyfer labelu bwydydd a chynhwysion bwydydd sy'n cynnwys sterolau planhigion ychwanegol. Mae sterolau i'w cael yn naturiol mewn planhigion ac maent yn gostwng lefelau colesterol yn y gwaed trwy leihau'r gyfradd y mae'r coluddyn yn amsugno colesterol. Fe'u ceir mewn olewau planhigion megis olew had blodau'r haul, olew had rêp ac olew ffa soia, ac mewn cnau, hadau a grawn. Bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig hefyd yn cyflwyno gofynion ar gyfer labelu rhai bwydydd penodol sy'n destun disgresiwn cenedlaethol o dan Gyfarwyddeb 2000/13/EC (bwydydd nad ydynt wedi'u pacio'n barod neu eu pacio'n barod i'w gwerthu'n uniongyrchol).

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol) (Cymru) 2005 (15 munud)**

Bydd y Gorchymyn Cychwyn hwn yn dod â rhagor o ddarpariaethau Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i rym, wedi'i gyfyngu i gychwyn adrannau 62 (y ddyletswydd i baratoi cynlluniau datblygu lleol) a 63 (canllawiau paratoi), i'r graddau nad ydynt eisoes wedi'u dwyn i rym, ynghyd ag adrannau 72 (y per i baratoi cynllun ar y cyd) a 73 (eithrio rhai cynrychioliadau). Byddai hyn yn galluogi cymryd pob cam hyd at, ond heb gynnwys, y cam bod awdurdodau cynllunio lleol yn cyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol i'w archwilio'n annibynnol (gan berson sydd wedi'i benodi gan y Cynulliad). Mae'r Gorchymyn arfaethedig yn cynnwys darpariaeth drosiannol, sy'n eithrio'r awdurdodau cynllunio lleol hynny nad ydynt yn barod i fynd ati ar hyn o bryd i baratoi cynlluniau datblygu lleol. Bydd cynlluniau datblygu lleol yn disodli'r cynlluniau datblygu unedol presennol sy'n nodi polisiau a chynigion yr awdurdodau cynllunio ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn ei ardal.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cymwysterau a Chofrestru Prifathrawon (Cymru) 2005 (15 munud)**

  Effaith fwriedig y Rheoliadau hyn yw cyflwyno cymhwyster gorfodol ar gyfer pob pennaeth tro cyntaf parhaol yng Nghymru o 1 Medi 2005 ymlaen. O'r dyddiad hwnnw, bydd yn ofynnol i bob pennaeth tro cyntaf parhaol:

  - feddu ar y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (NPQH);
  - meddu ar statws athro cymwysedig;
  - cofrestru â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.
- Bydd cyflwyno'r Rheoliadau hyn yn sicrhau bod datblygiad proffesiynol cyson yn cael ei ddarparu i bawb sy'n dymuno bod yn bennaeth yng Nghymru, a bydd hefyd yn cyflwyno gofynion mynediad safonol a chydnabyddedig ar gyfer pob pennaeth a gaiff ei benodi yn y dyfodol.
- **Proposal to debate the following 4 items together but with separate votes (45 munud )**
- **Cynnig I gymeradwyo The Anti Social Behaviour Act 2003 (Commencement No4) (Wales) Order 2005**

  The Anti-social Behaviour Act 2003 gives local authorities (and also registered social landlords in terms of the housing provisions) new and more effective tools to deal with anti-social behaviour. This Order relates to sections 12, 14 and 15 and Schedule 1 of the Anti-social Behaviour Act 2003. Section 12 places a duty on social landlords (local authorities and housing associations) to prepare and publish policies and procedures in relation to anti-social behaviour. Section 14 amends the Housing Acts 1985 and 1988 to provide for demoted tenancies. Section 14(5) refers to Schedule 1 which amends relevant parts of the Housing Acts 1985 and 1996 to provide further for demoted tenancies and gives power to the National Assembly for Wales to make subordinate legislation. Section 15 amends the Housing Act 1988 and sets out the legal basis for the form of demoted tenancy that can be used by housing associations.

- **Cynnig I gymeradwyo The Demoted Tenancies (Review of Decisions) (Wales) Regulations 2005**

  The Demoted Tenancies (Review of Decisions) (Wales) Regulations 2005 sets out the procedures to be followed by social landlords where a tenant requests the landlord to review its decision to claim possession of their demoted tenancy. A demoted tenancy results from a demotion order being secured by a social landlord through a county court.

- **Cynnig I gymeradwyo The Secure Tenancies (Notices) (Amendment) (Wales) Regulations 2005**

  The Secure Tenancies (Notices) (Amendment) (Wales) Regulations 2005 prescribes the form of notice which should be served on a secure tenant before a landlord begins proceedings to seek a demotion order (section 83 of the Housing Act 1985 as amended by section 14 of the Anti-social Behaviour Act 2003). Secure tenancies are used by local authority housing departments. They are secure, meaning local authorities are required to seek a court order to secure possession of a dwelling occupied by a secure tenant.

- **Cynnig I gymeradwyo The Anti Social Behaviour: Policies and Procedures – Code of Guidance for Local Authorities and Housing Associations o dan Reol Sefydlog 29**

  The Anti-social Behaviour Act 2003 gives local authorities (and also registered social landlords in terms of the housing provisions) new and more effective tools to deal with anti-social behaviour. Section 218A (7) of the Housing Act 1996 was inserted by section 12 of the Anti-social Behaviour Act 2003. It requires social landlords to prepare and publish policies and procedures in relation to anti-social behaviour. Each social landlord must publish a Statement of their policies and procedures, and an associated Summary, not later than 6 months after commencement of section 12 of the Anti-social Behaviour Act 2003. In compiling their policies and procedures, social landlords must have regard to the Statutory Guidance issued by the National Assembly for Wales.

- **Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ar gyfraniad y Celfyddydau a Chwaraeon i Adfywio Cymunedol (60 munud)**

Cynhaliodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon adolygiad polisi i gyfraniad y celfyddydau a chwaraeon i adfywio cymunedol. Mae'r Adroddiad yn

ystyried:

- y cysylltiadau rhwng y polisi celfyddydau, y polisi chwaraeon a'r polisi adfywio cymunedol;
- sut y mae prosiectau celfyddydau a chwaraeon lleol yn gallu cyfrannu at adfywio cymunedol;
- mecanweithiau cymorth ar gyfer prosiectau celfyddydau a chwaraeon sy'n gysylltiedig ag adfywio cymunedol;
- arferion gorau mewn prosiectau celfyddydau a chwaraeon sy'n gysylltiedig ag adfywio cymunedol;
- argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## Dydd Mercher 27 Ebrill 2005

- **Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (30 munud)**
- **Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (30 munud)**
- **Cwestiynau i Bwyllgor y Ty (5 munud)**
- **Dadl ar y Fframwaith Strategol ar gyfer Blaenau'r Cymoedd (60 munud)**

  Rhaglen hirdymor (10-15 mlynedd) ar draws sectorau yw Rhaglen Blaenau'r Cymoedd. Ei diben yw bwrw ati â'r gwaith parhaus o adfywio Blaenau'r Cymoedd yng nghyd-destun Cynllun Gofodol Cymru. Mae'r rhaglen yn ceisio mynd i'r afael yn strategol â gwraidd y problemau y mae Blaenau'r Cymoedd yn eu hwynebu, a lledaenu llewyrch i'r ardal trwy adeiladu ar y lefelau sylweddol o fuddsoddiad sy'n cael eu gwneud yn yr ardal, a sicrhau bod y buddsoddiadau hynny yn cael yr effaith fwyaf posibl.

- **Dadl ar yr "Amgylchedd Hanesyddol" (60 munud)**
- **Dadl fer (30 munud)**

## Dydd Mawrth 3 Mai 2005

- **Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar Gludiant i'r Ysgol (60 munud)**
- **Cynnig I gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**
- **The Tir Mynydd (Wales)(Amendment) Regulations 2005**

Tir Mynydd is the Less Favoured Area (LFA) support measure under the current European Council and Commission Rural Development Regulations, formally approved as part of the Rural Development Plan for Wales (RDPW). LFA is disadvantaged or severely disadvantaged land as shown in Volumes 1 & 2 of ‘the Volume of Maps of Less Favoured Farming Areas in Wales’, dated 20 May 1991. Compensatory allowances are paid in respect of LFA forage to farmers who: farm a minimum of 6 hectares, undertake to pursue farming for at least five years from the first payment of a compensatory allowance, and apply usual good farming practice compatible with the need to safeguard the environment and maintain the countryside, in particular by sustainable farming. The Tir Mynydd scheme is the basis for paying these allowances to Welsh farmers. As a result of Common Agricultural Policy reforms (including cessation of livestock claims from 2005) and new measures for organic farmers, which impact on the Tir Mynydd Scheme, it has been necessary to amend the qualifying criteria for the 2006 scheme. These Regulations apply to holdings which are situated entirely or partially, in Wales.

- **Cynnig I gymeradwyo The Countryside Access (Means of Access, Appeals Etc) (Wales) Regulations 2005 (15 munud)**

  These Regulations will specify the initial procedures to be followed in the handling and determination of appeals submitted by a landowner or farmer against an access authority who has served notice requesting them to undertake work to secure or improve access to land.

- **Dadl ar the Annual Report of the Welsh Administration Ombudsman (45 munud)**

## Dydd Mercher 4 Mai 2005

- **Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**
- **Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (30 munud)**
- **Dadl ar Estyn (60 munud)**
- **Dadl Broadband Wales (60 munud)**
- **Dadl fer (30 munud)**